# Archwiliad Diabetes Cenedlaethol i Ofal Traed:

## gwella traed yn gynt

NHS

## Mae eich tîm gofal traed diabetig yn cymryd rhan mewn prosiect cenedlaethol i fesur y modd y mae wlserau troed diabetig yn gwella.

**Yr enw ar y prosiect yw'r Archwiliad Diabetes Cenedlaethol i Ofal Traed (NDFA), a'i nod yw darganfod y ffordd orau o reoli wlserau traed.**

I gymryd rhan yn yr Archwiliad, bydd eich tîm gofal traed yn casglu gwybodaeth am unrhyw wlserau a allai fod gennych. Bydd y data'n cael eu cadw ar system electronig ddiogel. Mae'r broses o gasglu a defnyddio gwybodaeth o'r fath yn cael ei rheoli'n llym gan y gyfraith ac yn dilyn safonau cenedlaethol o ran cyfrinachedd a diogeledd.

**Trwy gymryd rhan yn yr NDFA, mae'r gwasanaeth hwn yn dangos ei fod wedi ymrwymo i wella gofal pobl â diabetes.**

**Gwybodaeth Bwysig i Gleifion**

Er bod yn rhaid cyflwyno holl wybodaeth yr NDFA i GIG Lloegr, gallwch atal eich data rhag cael eu rhannu ymhellach. Ni fydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar eich gofal.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael – gofynnwch i aelod o staff am daflen wybodaeth i gleifion neu cysylltwch â GIG Lloegr:

**E-bost:** ndfa@nhs.net **Ffôn:** 0300 303 5678

https://digital.nhs.uk/nda

nda NATIONAL DIABETES AUDIT | DIABETES UK KNOW DIABETES. FIGHT DIABETES. | HQIP Healthcare Quality Improvement Partnership | NHS England